# Llawlyfr y Dysgwyr
# Learners' Handbook
# 2025-26



## Croeso i'r Cwrs
## Welcome to the Course


1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Croeso i **Dysgu Cymraeg**
## Ceredigion Powys Sir Gâr!
# Welcome to **Learn Welsh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anika Lloyd** | Pennaeth Dysgu Cymraeg | Head of Learn Welsh | **ail@aber.ac.uk** |
| **Carys Hughes Jones** | Cydlynydd Gweinyddol | Administration Co-ordinator | **caj@aber.ac.uk** |
| **Cêt Morgan** | Swyddog Rhaglen | Programme Co-ordinator | **ccm@aber.ac.uk** |
| **Debbie Gilbert** | Cydlynydd Gogledd Powys | North Powys Co-ordinator | **dlg3@aber.ac.uk** |
| **Elin Williams** | Cydlynydd Hyfforddiant Ansawdd a Chwricwlwm | Training Quality & Curriculum Co-ordinator | **eiw@aber.ac.uk** |
| **Felicity Roberts** | Cydlynydd y Cwrs Haf Dwys | Intensive Summer Course Co-ordinator | **afr@aber.ac.uk** |
| **Lili Price Jones** | Cynorthwy-ydd Gweinyddol | Learn Welsh Team | **lip40@aber.ac.uk** |
| **Meryl Evans** | Cydlynydd Ceredigion | Ceredigion Co-ordinator | **mee25@aber.ac.uk** |
| **Olwen Morus** | Cydlynydd Cymraeg Gwaith a Chymraeg yn y Cartref | Work Welsh Co-ordinator & Welsh at Home | **olm25@aber.ac.uk** |
| **Rhian Lloyd** | Swyddog Gweinyddol | Learn Welsh Team | **rqj@aber.ac.uk** |
| **Sam Jones** | Cydlynydd De Powys a Sir Gâr | South Powys & Carmarthenshire Co-ordinator | **saj96@aber.ac.uk** |
| **Sue Evans** | Cydlynydd Gogledd Powys, a Chymraeg yn y gweithle | North Powys Co-ordinator & Welsh in the Workplace | **sae20@aber.ac.uk** |
| **Y swyddfa** | Tîm Dysgu Cymraeg | Learn Welsh Team | **cirstaff@aber.ac.uk** |

## Gwybodaeth Bwysig

Diolch am gofrestru ar gwrs gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys a Sir Gâr. 'Dyn ni wir yn gobeithio y byddwch yn mwynhau'r cwrs. Os dych chi'n meddwl eich bod ar gwrs ar y lefel anghywir, peidiwch â phoeni. Byddwn ni yn eich helpu i newid i'r lefel gywir – dyma rif ffôn a chyfeiriad ebost y swyddfa:

**0800 876 6975 | dysgucymraeg@aber.ac.uk**

# Dyddiadau'r Tymor

| | |
|---|---|
| Tymor yn dechrau | 15 - 19 Medi 2025 |
| Hanner Tymor Hydref | 25 Hydref - 2 Tachwedd 2025 |
| Gwyliau'r Nadolig | 13 Rhagfyr 2025 - 4 Ionawr 2026 |
| Hanner Tymor Chwefror | 14 - 22 Chwefror 2026 |
| Gwyliau'r Pasg | 28 Mawrth - 12 Ebrill 2026 |
| Hanner Tymor y Gwanwyn | 23 Mai 2025 - 31 Mai 2026 |
| Tymor yn gorffen | 5 Mehefin 2026 |
| Dysgu yn lle Gŵyl y Banc Calan Mai | 8 Mehefin 2026 |

**'Fy Nysgu' - Proffil y Dysgwr ar y Safle Cenedlaethol**
Byddwch yn medru gweld manylion allweddol am eich cwrs yn yr adran 'Fy Nysgu'. Yma bydd dyddiad ac amser eich dosbarth. Yma bydd dolen Zoom neu Teams er mwyn i chi ymuno â'r dosbarth os ydych yn dysgu ar-lein. Bydd unrhyw ddeunydd hunan-astudio yn cael ei gynnwys yma hefyd.

## Important Information

Thank you for registering on a course with Learn Welsh Ceredigion Powys and Carmarthenshire. We really hope that you will enjoy the course. If you think that you are not on the right level, don't worry. We will help you to change to another level – this is our telephone number and email address:

**0800 876 6975 | learnwelsh@aber.ac.uk**

# Term Dates


| | |
|---|---|
| Start of Term | 15 - 19 September 2025 |
| Autumn Half Term | 25 October - 2 November 2025 |
| Christmas Holidays | 13 December 2025 - 4 January 26 |
| February Half Term | 14 - 22 February 2026 |
| Easter Holidays | 28 March - 12 April 2026 |
| Spring Half Term | 23 May 2025 - 31 May 2026 |
| End of term | 5 June 2026 |
| Teaching instead of May Day Bank Holiday | 8 June 2026 |

**'My Learning' - Learner Profile on the National Website**
Here, in 'My Learning' you will find important details about your course. The date and time of your class can be seen here. Your Zoom or Teams link will also be here so that you can join the class if learning on-line. Here, you will also have access to any self-study material.

## Côd Ymddygiad

‘Dyn ni’n disgwyl i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn barchus tuag at eraill. Mae cydraddoldeb yn bwysig iawn i ni o ran oed, anabledd, rhyw, cyfeiriadaeth rywiol, newid rhyw, hil, crefydd a chred (yn cynnwys pobl heb gred), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

**Fyddwn ni ddim yn derbyn unrhyw sylwadau amhriodol yn y dosbarth.**




## Code of Conduct




We expect you to behave responsibly and respect others. We are committed to advancing equality on the grounds of age, disability, sex and sexual orientation, gender reassignment, race, religion and belief (including lack of belief), marriage and civil partnership, pregnancy and maternity.

**Inappropriate remarks of any sort will not be tolerated.**

# Cwrslyfrau

# Coursebooks

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad | Cwrslyfr Cenedlaethol National Coursebook | Ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar http://www.gwales.com | For sale in your local book shop or on-line at http://www.gwales.com | £10 |
| Sylfaen | Cwrslyfr Cenedlaethol National Coursebook | Ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar http://www.gwales.com | For sale in your local book shop or on-line at http://www.gwales.com | £10 |
| Canolradd | Cwrslyfr Cenedlaethol National Coursebook | Ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar http://www.gwales.com | For sale in your local book shop or on-line at http://www.gwales.com | £10 |
| Uwch 1 | Cwrslyfr Cenedlaethol National Coursebook | Ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar http://www.gwales.com | For sale in your local book shop or on-line at http://www.gwales.com | £10 |
| Uwch 2 | Cwrslyfr Cenedlaethol National Coursebook | Ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar http://www.gwales.com os ydych yn ymuno yn ystod ail flwyddyn y cwrs, bydd y swyddfa yn rhoi gwybod i chi | For sale in your local book shop or online at http://www.gwales.com If you're joining during the second year of the course you will receive information from the office | £10 |
| Uwch 3 | Cwrslyfr Cenedlaethol National Coursebook | Ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar http://www.gwales.com | .For sale in your local book shop or online at http://www.gwales.com | £10 |
| Gloywi | Deunydd Amrywiol | Bydd y tiwtor yn rhoi gwybodaeth i chi. | You will receive information about the course book from your tutor. | £10 |






Llyfrau Darllen

Mae yna gyfres o lyfrau darllen diddorol i ddysgwyr ar lefelau Mynediad i Uwch - Cyfres Amdani. Mae'r llyfrau hyn wedi eu graddoli'n ofalus i gyd-fynd â'r gwaith cwrs ar bob lefel, er mwyn i chi gael mwynhau darllen. Ewch i www.gwales.com neu i'ch siop lyfrau lleol i'w prynu!

Reading books

There's a series of reading books for learners at Entry to Advanced levels - the "Amdani" series. These books have been carefully graded to the patterns and vocabulary in the courses at each level, so that you have a really enjoyable read. You will find them at http://www.gwales.com or in your local book shop.



# Dysgu ac Ymarfer Ychwanegol



## Dysgu ychwanegol

'Dyn ni'n eich annog chi i ddysgu y tu allan i'r dosbarth hefyd. Ceisiwch wneud cymaint o oriau ychwanegol â phosib drwy ddefnyddio'r wefan DysguCymraeg https://dysgucymraeg.cymru/, a mynychu'r cyrsiau atodol—manylion ar dudalen 8 a 9. Hefyd cofiwch am y Gwaith Cartref!

## Ymarfer ychwanegol

'Dyn ni'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau i ddysgwyr i ymarfer y tu allan i'r dosbarth mewn awyrgylch hollol anffurfiol. Byddwch yn cael gwybodaeth gan eich tiwtor yn ystod y cwrs. Bydd dysgwyr ar lefel Ganolradd ac Uwch hefyd yn cael cyfle i baru gyda siaradwr Cymraeg rhugl fel rhan o'r Cynllun Siarad: https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/ Byddwch yn derbyn e-fwletin yn rheolaidd gyda rhagor o wybodaeth am wahanol weithgareddau yn eich ardal.

Cofiwch hefyd ein dilyn ar Facebook a Trydar
www.facebook.com/learnwelshceredigionpowys neu www.facebook.com/ciosirgar/

# Additional Learning and Practise

## Additional learning

We're committed to giving you the best opportunities to improve and advance your learning. Try to complete as many additional hours as possible, using the Learn Welsh website https://dysgucymraeg.cymru/ and participating in the extra courses that we provide—details on pages 8 and 9. Don't forget the homework!

## Extra Practice

We organise a wide range of events for learners to use Welsh outside the classroom in an informal atmosphere. You will receive details from your tutor during the year.Learners at Intermediate and Advanced levels will also have an opportunity to be paired with a fluent Welsh speaker as part of the Cynllun Siarad: https://learnwelsh.cymru/learning/siarad/
You will receive a regular online bulletin with all the details regarding practice activities in your area.

Don't forget to follow us on Facebook and Twitter:
www.facebook.com/learnwelshceredigionpowys or
www.facebook.com/ciosirgar/



## Gwefannau Defnyddiol

## Useful Websites

| | | |
|---|---|---|
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | https://dysgucymraeg.cymru/ | The National Learn Welsh website |
| Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth | www.aber.ac.uk/cy/learn-welsh<br>www.aber.ac.uk/en/learn-welsh/ | Aberystwyth University Learn Welsh |
| BBC Cymru Fyw - newyddion | www.bbc.co.uk/cymrufyw | BBC Cymru Fyw - news |
| Geiriaduron ar-lein | https://geiriaduracademi.org/<br>https://geiriaduracademi.org/<br>https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/ap_geiriaduron.php.cy<br>www.gweiadur.com<br>www.geiriadur.ac.uk | Online dictionaries |
| Golwg 360 - newyddion | https://golwg.360.cymru/ | Golwg 360 - news |
| Dysgu Geirfa | https://www.memrise.com/ | Vocabulary |
| Welsh plus / Welsh with us | www.youtube.com | Welsh plus / Welsh with us |
| Tudalen Facebook | www.facebook.com/learnwelshceredigionpowys<br>www.facebook.com/ciosirgar/ | Facebook page |
| Meddalwedd Cymraeg | http://www.meddal.com | Welsh software |
| Quizlet – cardiau fflach | https://quizlet.com | Quizlet – flash cards |
| Say Something in Welsh | https://www.saysomethingin.com/welsh | Say Something in Welsh |
| Duolingo | https://www.duolingo.com/ | Duolingo |
| Pigion Radio Cymru | https://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/pigion/ | Radio Cymru – selection of clips |
| S4C | http://www.s4c.cymru/cy/dysgu-cymraeg/ | S4C |
| Ymarfer Patrymau | http://telesgop.co.uk/clicclonc/ | Help with language patterns |



# Cyrsiau ychwanegol Additional courses

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Sadwrn** Saturday **13/09/2025** | **Cicio'r Cof** Rustbuster | **Cwrs undydd i adolygu cyn dechrau'r tymor** | One day revision course before the start of term | **Ar-lein** Online **Zoom** | £10 |
| 2 | **Sadwrn** Saturday **15/11/2025** | **Sadwrn Siarad** Saturday School | **Cwrs undydd i adolygu yn ystod y tymor** | A day school to practise and revise | **Ar-lein ac mewn person** Online & in person tbc | £10 |
| 3 | **Llun a Mawrth 16-17/02/2026** Mon and Tuesday | **Cwrs Chwefror** February School | **Cwrs deuddydd yn Chwefror** | Two day course in February | **Ar-lein ac mewn person** Online & in person tbc | £15 |
| 4 | **Mai / Mehefin** May / June | **Adolygu Arholiad** Exam Revision | **Cwrs 1 diwrnod neu hanner diwrnod** | One day or half day course | **Ar-lein ac mewn person** Online & in person tbc | £10/5 |
| 5 | **Mehefin / Gorffennaf** June / July | **Cwrs Haf 2 diwrnod** 2 Day Summer Course | **Cwrs deuddydd wyneb yn wyneb dros yr haf** | Two day face to face course during the summer | **Ar-lein ac mewn person** Online & in person tbc | £15 |
| 6 | **Gorffennaf** July 06-31/07/2026 | **Cwrs Haf Dwys** Intensive Summer Course | **Cwrs preswyl neu ddi-breswyl dros 4 wythnos** | 4 week residential or non-residential course | **Aberystwyth** | £100 |

# Arholiadau
# Examinations

**Mae CBAC yn darparu pedwar cymhwyster penodol i oedolion sy'n Dysgu Cymraeg. Gallwch chi ennill y cymwysterau hyn drwy sefyll cyfres o brofion llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu ar ddiwrnodau penodol. Cewch wybodaeth bellach gan eich tiwtor. Does dim ffi am yr arholiadau hyn ar gyfer dysgwyr presennol.**

If you wish to gain a formal qualification, four examinations are offered by WJEC. These exams entail oral, listening, reading and writing tests on specific dates. You will receive more information from your tutor. The exams are free of charge for current learners.

wjec cbac

**Arholiadau CBAC**
**Defnyddio'r Gymraeg**
WJEC Examinations
**2026**

| | **Dyddiad** Date | **Dyddiad cau** Deadline | **Dolen i gofrestru** Link to register |
|---|---|---|---|
| **Mynediad Ionawr** | Dydd Gwener 30/01/2026 | 06 Rhagfyr 2025 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Mynediad Dydd** | Dydd Mawrth 09/06/2026 | 28 Chwefror 2026 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Mynediad Nos** | Nos Fercher 10/06/2026 | 28 Chwefror 2026 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Sylfaen** | Dydd Gwener 19/06/2026 | 28 Chwefror 2026 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Canolradd** | Dydd Gwener 12/06/2026 | 28 Chwefror 2026 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Uwch** | Dydd Mercher a bore Iau 17-18/06/2026 | 28 Chwefror 2026 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |

**Cynhelir yr arholiadau wyneb yn wyneb - bydd y lleoliadau yn dibynnu ar niferoedd. Mae manylion arholiadau CBAC ar gael wrth glicio'r lefel priodol. Gall profion llafar yn unig gael eu cynnig ar-lein.**
The exams will be held in-person with locations depending on the demand. Speaking tests may be available on-line. For WJEC examination information click on the appropriate level.

**Am ragor o wybodaeth ebostiwch** E-mail for more information **ccm@aber.ac.uk**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

**Ymholiadau arholiadau:**
Exam Enquiries to:

**Cêt Morgan**
**ccm@aber.ac.uk**

## Presenoldeb

Er mwyn cael y gorau o'r cwrs, ymunwch â phob gwers, a dewch yn brydlon. Os byddwch yn absennol rhowch wybod i'ch tiwtor. Mae cyfeiriad ebost Prifysgol Aberystwyth gan eich tiwtor felly gofynnwch amdano. Os byddwch yn colli sawl gwers, bydd cyfle i chi drafod â'ch tiwtor y ffordd orau i geisio dal fyny. 'Dyn ni yma i helpu!

## Attendance

In order to get the best out of your course, please try to join every lesson, and be punctual. If you cannot attend, please inform the tutor. Your tutor will have an Aberystwyth University email address, so please ask them for it. If you miss a few classes, your tutor will help you catch up – we are eager to help you with the learning process.

## Polisi Ad-daliad Cyrsiau

Os byddwn ni'n canslo'r dosbarth, byddwn ni'n ad-dalu'r ffi lawn. Os na fyddwch yn dod i'r wers gyntaf, byddwn yn ad-dalu 80% o'r ffi. Os na fyddwch yn parhau i ddysgu o fewn y 4 wythnos gyntaf, byddwn ni'n ad-dalu 50% o'r ffi. Os byddwch yn penderfynu peidio â pharhau wedi'r 4 wythnos gyntaf, fyddwn ni ddim yn cynnig ad-daliad.

## Refund Policy

If we cancel a course, a full refund will be given. If the learner does not attend the first class, 80% of the fee will be refunded. If the learner stops attending a class during the first 4 weeks, 50% of the course fee will be refunded. If the learner decides to pull out of the course after the first 4 weeks, no refund will be given.



## Dysgwyr ag Anghenion Penodol

'Dyn ni'n cymryd pob cam ymarferol posib i sicrhau fod dysgwyr ag anghenion penodol yn gallu cymryd rhan lawn ym mhob agwedd o gwrs dysgu Cymraeg. Os dych wedi nodi unrhyw anghenion ychwanegol wrth gofrestru, bydd y cydlynydd lleol yn cysylltu â chi i drafod ymhellach. Mae hi'n bosib cael copi du a gwyn o'r llyfrau cwrs os bydd hynny o help.


Os hoffech fwy o wybodaeth neu os hoffech ofyn mwy o gwestiynau am yr hyn a gynigir gan y Brifysgol i fyfyrwyr ag anghenion neu anabledd, cysylltwch drwy ebost ar **accessibility@aber.ac.uk** neu ein ffonio ar **(01970) 621761 or 62208**

## Canmol a Chwyno

Bydd pob dysgwr yn cael cyfle i fynegi barn drwy'r holiadur cenedlaethol a thrwy'r broses arsylwi. 'Dyn ni eisiau sicrhau profiad addysgol o ansawdd uchel i'n holl ddysgwyr.

'Dyn ni'n croesawu canmoliaeth o'r cyrsiau. Bydd derbyn canmoliaeth haeddiannol yn rhoi hwb mawr i'ch tiwtor, felly os oes gyda chi reswm i ganmol, dywedwch wrth y tiwtor, neu anfonwch air at eich Cydlynydd Ardal neu'r Pennaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fyddwch yn anfodlon ar y gwasanaethau neu'r cyfleusterau dysgu ac addysgu.

'Dyn ni'n eich annog i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r cwrs â'ch tiwtor yn y lle cyntaf. Os nad oes modd ymdrin â'r mater gyda'r tiwtor, cysylltwch os gwelwch yn dda â'ch Cydlynydd Ardal. Mae eu manylion cyswllt ar ddechrau'r llawlyfr.





## Learners with Specific Needs

We take all possible practical steps to enable full participation by learners with specific needs in all aspects of their course. If you have noted any additional needs when registering, your local co-ordinator will contact you to discuss what steps to take to help you. It is possible to  ask for a black and white copy of the coursebooks if this will help.

If you would like further information about the Universitiy's provision for students with disabilities or have specific questions, please contact us by email on **accessibility@aber.ac.uk** or phone us on **(01970) 621761 or 62208**

## Praise and Complaints

Every learner will be invited to complete a national survey in order to evaluate the learning experience. Also there will be an opportunity to provide feedback during classroom observations. We aim to provide the best possible learning experience.

We welcome any praise of our provision – this will inevitably be welcomed by the tutor. If you do have reason to praise, tell the tutor, area co-ordinator or the Head of Learn Welsh.  However, sometimes, there will be occasions when you will have a concern about aspects of your course.

We encourage you to discuss if possible, in the first instance with your tutor. If this is not possible, you may contact one of the area co-ordinators whose contact details  are listed at the front of the handbook..




**Mae cymorth ar gael er mwyn eich cefnogi i ddysgu Cymraeg:**
Support is available to those attending a Learn Welsh course:

- **Adnoddau / cyfarpar / deunyddiau dysgu, gan gynnwys dyfeisiadau digidol a mynediad i'r we**
  Resources / equipment / learning materials including digital devices and internet access
- **Costau teithio a pharcio**
  Travel and parking costs
- **Ffi arholiad**
  Exam Fees
- **Gofal plant**
  Childcare

- **Mae 91% yn dweud bod y profiad Dysgu yn dda iawn neu'n dda**
  91% say that the learning experience is very good or good
- **Mae 91% yn dweud bod yr adborth i'r Gwaith Cartref yn dda iawn neu'n dda**
  91% say that homework feedback is very good or good
- **Mae 99% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol**
  99% strongly agree or agree that their tutor teaches the course effectively
- **Mae 96% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael digon o gymorth a gofal gennym fel darparwr.**
  96% strongly agree or agree that they receive enough support and care from us as a provider

# Dweud eich Dweud
## Have your say

"I think the course is very well thought out and I trust the process. I feel very lucky with my two tiwtors. They are both very encouraging and passionate and supportive. We have a lot of fun in our classes"

**"Mae'r brifysgol Aberystwyth wastad yn dod yn ôl i fi pan o'n i'n gofyn cwestiwn."**

"The course tutor was very helpful and supportive before taking the mynediad exam"

**"I'm loving being a learner again and loving everything about this course."**

# **Gwelwn ni chi yn fuan!**
# See you in class!

**www.learnwelsh.cymru/ceredigion**
www.dysgucymraeg.cymru/powys

**Cysylltwch â ni** | Contact us

**Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr**
Adeilad yr Arglwydd Milford, Campws Gogerddan,
Prifysgol Aberystywth SY23 3EE
**0800 876 6975**
learnwelsh@aber.ac.uk